Gwilym Davies: 1895-1955

Neges Ewyllys Da

Sefyll dros yr hyn rydych yn ei gredu / ffyddlondeb / dyfalbarhad

"Cymru'n galw. Neges Ewyllys Da Ieuenctid Cymru i Ieuenctid y Byd. Dyma Gymru. Cyfarchion bechgyn a merched Cymru i fechgyn a merched yr holl fyd ar Ddydd Ewyllys Da."

Ie, dyna'r cyfarchiad ar Ddydd Ewyllys Da Plant Cymru ar Mai 18 bob blwyddyn. Dyma'n cyfle ni i holi sylfaenydd y Neges, sef y Parchedig Gwilym Davies.

Ymhle y cawsoch chi'ch geni?

Ym Medlinog, Sir Forgannwg. Ond gan fod fy nhad yn weinidog gyda'r Bedyddwyr fe symudon ni i Faenordeilo, Sir Gaerfyrddin. Ar ôl dyddiau ysgol fe es i Goleg Nottingham a Choleg yr Iesu, Rhydychen. Roeddwn i am fod yn weinidog fel fy nhad. Bûm yn weinidog yng Nghaerfyrddin, y Fenni a Llandrindod.

Ond nid fel gweinidog yn bennaf rydyn ni'n cofio amdanoch:

Na, roedd fy nghalon i ar dân dros heddwch. Ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf (1914-18) fe welais i nad oedd modd datrys problemau Cymru heb help gwledydd eraill. Mi fyddwn i yn treulio tua naw mis bob blwyddyn yng Ngenefa, yn y Swistir, yn trafod problemau gwledydd eraill. Roeddwn i'n teimlo fod gan Gymru, oedd yn genedl fechan, neges arbennig i'w chyflwyno i'r byd. Roeddwn i hefyd yn sicr mai'r ffordd o setlo rhyfel oedd trwy addysgu plant a phobl ifanc.

Er eich bod chi'n crwydro cryn dipyn roeddech chi yn dal i roi sylw mawr i Gymru.

Ar ôl priodi fe symudais i fyw i Aberystwyth. Roedd gen i ddiddordeb mawr mewn pobl. Droeon mi fyddwn i yn siarad â chriw o sipsiwn ar gyrion Aberystwyth. Cofiwch chi, roedd rhai pobl yn synnu fod dyn "parchus" fel fi yn siarad â phobl felly. Ond, dyna sut mae dod i ddeall pobl, trwy siarad efo nhw. Mi rydw i yn cofio dweud rhyw dro, 'y drygioni pennaf yn ein byd yw rhyfel. Mae'n rhaid i ni wneud ein byd yn un gymdeithas fawr heb iddi ffiniau lliw, na gwlad na chrefydd.' Felly roedd gen i ddau gariad mawr, sef pobl ifanc a heddwch byd. Ym 1922 cychwynnodd Neges Heddwch Ieuenctid Cymru i Ieuenctid y Byd.

Sut ymateb fu yna?

Wel, y neges gyntaf, dim ond un glywodd y genadwri, sef Rheolwr Tŵr Eiffel ym Mharis. Y flwyddyn ganlynol, fawr neb yn clywed y neges. Ym 1924 fe anfonwyd y neges gan orsaf radio'r BBC. A wyddoch chi, wrth ddarlledu'r neges hon, y fi oedd y cyntaf i ddarlledu yn Gymraeg ar

y BBC. Derbyniais ddau ateb i'r neges hon. Un gan Archesgob Uppsala yn Sweden a'r llall gan Weinidog Addysg Gwlad Pŵyl.

Pam dewis Mai 18?

Ar y dyddiad hwn y cyfarfu y Gyngres Heddwch Ryngwladol am y tro cyntaf erioed yn yr Hague, yr Iseldiroedd, a hynny yn 1899 pan oeddwn i'n bedair oed. Pwrpas y Gyngres hon oedd creu byd heb ryfel a dyna oedd pwrpas Neges Ewyllys Da a hefyd ceisio cael ieuenctid y byd i ddod at ei gilydd i greu byd o heddwch.

Fedrwch chi gofio ambell ateb gawsoch chi?

Fe ddywedodd un gŵr amlwg wrthyf, 'Rydych chi'n siarad yn enw gwlad fechan Cymru, nad oes angen i'r un wlad arall ei hofni. Bydd pob gwlad arall yn croesawu'ch arweiniad.'

Beth fuasai eich neges i ieuenctid Cymru heddiw?

Mae'n rhaid troi pob carreg i geisio heddwch byd. Dydi o ddim yn waith hawdd o gwbl ond dyfal donc a dyr y garreg. Rwy'n berffaith sicr mai trwy addysgu mae gwneud hynny. Fe ddywedodd Iesu Grist, "Gwyn eu byd y tangnefeddwyr...", sef y bobl sy'n chwilio am heddwch. A chofiwch sut mae'r adnod yn gorffen, "hwy a elwir yn blant i Dduw".

Y Parchedig Gwilym Davies, diolch yn fawr i chi.

"Gwyn eu byd y tangnefeddwyr,
oherwydd cânt hwy eu galw'n feibion Duw."
Mathew 5:9

Dysg ni, Arglwydd,
i'th wasanaethu fel yr haeddi,
i roi heb gyfri'r gost;
i frwydro heb ystyried y clwyfau;
i weithio heb geisio gorffwys;
i lafurio heb ddisgwyl unrhyw wobr
ond gwybod ein bod yn gwneud dy ewyllys di.
Amen.
(Gweddi o waith Ignatius o Loyola)

Ydych chi'n credu fod gan Gymru gyfraniad i'w wneud i heddwch byd?
Rhestrwch ddau neu dri o bethau a thrafodwch ymhlith eich gilydd.

Gwilym Davies: 1895–1955